OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2015 No. 1802

Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) (Diwygio) 2015

Diwygio Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) 2005

10. Yn rheoliad 10 (cwnsela)—

(a) yn lle paragraff (1) rhodder—

"(1) Rhaid i asiantaeth gyfryngol ddarparu gwybodaeth ysgrifenedig am argaeledd cwnsela i unrhyw berson—

(a) sy'n gwneud cais iddi o dan y Rheoliadau hyn;

(b) sy'n wrthrych cais o'r fath ac sy'n ystyried a ddylai gydsynio i wybodaeth gael ei datgelu amdano'i hun i'r ceisydd; neu

(c) sy'n berson mabwysiedig sy'n ystyried a ddylai gydsynio i gais fynd yn ei flaen.";

(b) yn lle paragraff (4)(c) rhodder—

"(c) os yw'r person yng Ngogledd Iwerddon, sefydliad gwirfoddol priodol o fewn ystyr "appropriate voluntary organisation" yn Erthygl 2(2) o Orchymyn Mabwysiadu (Gogledd Iwerddon) 1987(**1**) neu'r Bwrdd Rhanbarthol neu unrhyw Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol; neu"; ac

(c) yn lle paragraff (5) rhodder—

"(5) Yn y rheoliad hwn ystyr "Bwrdd Rhanbarthol" ("Regional Board") yw'r Bwrdd Rhanbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol a sefydlwyd o dan adran 7 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2009(**2**) ac ystyr "Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol" ("Health and Social Care Trust") yw Ymddiriedolaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol a sefydlwyd o dan Erthygl 10 o Orchymyn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Personol (Gogledd Iwerddon) 1991(**3**)."

(**1**) O.S. 1987/2203 (G.I. 22).
(**2**) 2009 p. 1.
(**3**) O.S. 1991/194 (G.I. 1).